## Cofrestru a Mewngofnodi

**Sut mae cofrestru i gael cyfrif?**
Ewch i borth cyllid Celfyddydau Ymdrochol a rhowch eich cyfeiriad e-bost i mewn er mwyn dechrau. Bydd cod dilysu yn cael ei anfon atoch drwy e-bost. Rhowch y cod yma i mewn i brofi pwy ydych chi, ac yna gallwch greu cyfrinair diogel.

**Beth os ydw i wedi anghofio fy nghyfrinair?**
Os ydych chi wedi anghofio'ch cyfrinair, cliciwch "Wedi anghofio'r cyfrinair" ar y dudalen mewngofnodi a dilynwch y camau i'w ailosod.

**Sut alla i ddiweddaru fy ngwybodaeth mewngofnodi?**
Gallwch newid eich e-bost neu'ch cyfrinair unrhyw bryd. Ar ôl mewngofnodi, cliciwch ar eich proffil yn y gornel dde uchaf a dewis "Proffil" i wneud newidiadau.

---

## Creu Ceisiadau a'u Cyflwyno

**Sut mae creu cais?**
Ar ôl mewngofnodi, ewch i'r adran "Gwneud Cais" a chliciwch ar "Cychwyn eich cais." Bydd hyn yn eich arwain drwy'r dasg o lenwi'r meysydd gofynnol ym mhob tab.

**Alla i olygu cais sy'n bodoli?**
Gallwch, gallwch ddychwelyd at eich ceisiadau sydd wedi'u cadw ar unrhyw adeg cyn eu cyflwyno. Cliciwch ar enw'ch cais neu dewiswch "Golygu" o'r ddewislen sydd drws nesaf i'ch cais.

**Sut mae cyflwyno fy nghais?**
Unwaith y bydd yr holl feysydd gofynnol wedi'u cwblhau, cliciwch ar "Cyflwyno" ar unrhyw dab i gwblhau'ch cais.

**Adolygu'ch Cais**

- Gwiriwch yr holl wybodaeth a'r ffeiliau atodedig yn fanwl.
- Defnyddiwch y nodwedd rhagolwg i weld sut bydd eich cais yn ymddangos i'r rhai fydd yn edrych drwyddo.

---

## Atodiadau a Fformatiau

**Alla i fformatio fy nhestun?**
Gallwch, mae opsiynau fformatio testun sylfaenol fel print trwm, italig a phenawdau ar gael.

**Sut alla i aildrefnu atodiadau?**
Gallwch newid trefn eich atodiadau sydd wedi'u huwchlwytho drwy ddefnyddio'r botymau saeth sydd wrth ochr pob atodiad.

**Gofynion Fformat Ffeiliau**

Er mwyn gwneud y broses adolygu mor esmwyth â phosib, gwnewch yn siŵr fod pob dogfen sy’n cael ei chyflwyno yn bodloni'r gofynion canlynol ar gyfer fformat ffeiliau:

Dogfennau testun: PDF, DOC
Lluniau: JPEG, PNG
Fideos: MP4, MOV
Sain: MP3, WAV
Gwnewch yn siŵr fod pob ffeil wedi'i henwi'n glir ac yn cyfateb i'r adran benodol y mae'n berthnasol iddi yn y cais.

---

## Cyflwyno Fformatau Hygyrch

Gallwch gyflwyno ceisiadau mewn fformat testun, sain neu fideo. Os byddwch yn dewis sain neu fideo, mae opsiynau uwchlwytho yn y ffurflen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau sy’n cael eu darparu ar faint a fformat ffeiliau.

---

## Cael Cymorth

Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â thîm Celfyddydau Ymdrochol, mae'r manylion cyswllt isod a hefyd ar gael ar dudalen mewngofnodi'r porth neu ar ddangosfwrdd eich cais. Cysylltwch drwy e-bost neu dros y ffôn ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'ch cais neu'r platfform.

anfonwch e-bost aton ni – info@immersivearts.uk neu ffoniwch neu anfonwch neges destun ar 07926699909.